**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

# Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-13

Gorffennaf 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Enterprise.learning.comm@Wales.gsi.gov.uk



© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Cronfeydd Strwythurol: Gweithredu Rhaglenni 2007-13

Gorffennaf 2010

**Y Pwyllgor Menter a Dysgu**

Penodir y Pwyllgor Menter a Dysgu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ac adrodd ar faterion o fewn meysydd datblygu economaidd, trafnidiaeth, ac addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Yn anad dim, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor yn dilyn Etholiadau Cynulliad Cymru ym mis Mai 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Rheol Sefydlog 12. Mae'r Rheolau Sefydlog ar gael yn www.cynulliadcymru.org

**Aelodaeth y pwyllgor**

| *Aelod o'r Pwyllgor* | *Plaid* | *Etholaeth neu Ranbarth* |
|---|---|---|
| Gareth Jones (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Aberconwy |
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| Jeff Cuthbert | Llafur | Caerffili |
| Andrew Davies | Llafur | Gorllewin Abertawe |
| Paul Davies | Plaid Geidwadol Cymru | Preseli Sir Benfro |
| Nerys Evans | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Brian Gibbons | Llafur | Aberafan |
| David Melding | Plaid Geidwadol Cymru | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Canol Caerdydd |

**Rhestr o Adroddiadau Perthnasol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor**

| *Teitl yr adroddiad* | *Dyddiad cyhoeddi* |
|---|---|
| Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Dirwasgiad Economaidd Byd-eang Presennol | 14 Mai 2009 |

Mae pob un o adroddiadau blaenorol y pwyllgor ar gael yn www.cynulliadcymru.org

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor ........ 5**

**Cefndir yr ymchwiliad ........ 8**

Diben yr ymchwiliad ........ 8

Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ........ 9

**Materion yn ymwneud â rhaglenni presennol ........ 10**

Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) ........ 10

Y broses ymgeisio ........ 11

Cynnydd hyd yma ........ 13

Defnyddio Cronfeydd Strwythurol wrth ymateb i'r dirwasgiad ........ 15

Cyllid Cymru ........ 16

Sut mae'r ariannu wedi'i rannu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a dielw ........ 16

Defnyddio trefniadau caffael wrth gyflenwi prosiectau ........ 20

Effaith bosibl cyllidebau sector cyhoeddus tynnach ........ 22

Effaith cyfraddau ymyrraeth cynyddol ........ 24

Cynaliadwyedd prosiectau ar ôl 2013 ........ 25

Monitro a gwerthuso ........ 26

**Casgliadau ........ 29**

**Tystiolaeth lafar ........ 30**

**Tystiolaeth ysgrifenedig ........ 33**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Cyfeiriwch at y tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu ei hasesiad o ffigyrau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) 2008 yr Undeb Ewropeaidd i'n Pwyllgor pan fyddant wedi'u cyhoeddi. **(Tudalen 11)**

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylid cael cysylltiadau agosach rhwng swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a staff prosiectau ym mhob cyfnod o ddatblygu prosiect, ond yn enwedig yn ystod y cyfnodau cynnar, i sicrhau bod cyngor a chanllawiau cyson yn cael eu cyfleu a'u deall o'r dechrau. **(Tudalen 13)**

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried dichonoldeb ariannu prosiectau priodol am chwe mlynedd pan geir unrhyw rowndiau ariannu'r UE yn y dyfodol, fel rhan o ddull cyfannol o annog prosiectau i ddod yn gynaliadwy yn y tymor hir. **(Tudalen 13)**

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell, wrth i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gyflawni ei chyfrifoldebau monitro prosiectau, y dylai ystyried yn ofalus yr hinsawdd economaidd bresennol ac effaith hyn ar dargedau gwreiddiol prosiectau ac felly ar y deilliannau tymor hir ar gyfer economi Cymru. **(Tudalen 14)**

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ystyried dichonoldeb darparu cyngor i brosiectau ynglŷn â chydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol, yn hytrach na disgwyl i brosiectau sicrhau eu cyngor cyfreithiol eu hunain. **(Tudalen 15)**

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cadw golwg ar ei defnydd o Gronfeydd Strwythurol wrth ymateb i'r dirwasgiad. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n Pwyllgor ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ran ailddosbarthiad posibl Cyllid Cymru. **(Tudalen 16)**

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n dadansoddi'r contractau a ddyfernir ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr UE fesul sector, gan gynnwys gwybodaeth am darddiad y sefydliadau hynny – Cymru neu'r tu hwnt iddi – ac yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei gwefan. **(Tudalen 18)**

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol yn canolbwyntio mwy ar adeiladu galluedd ymchwil ac ar gydweithio rhwng y sector busnes a'r sector academaidd er mwyn creu cyfoeth a datblygu'r economi yng Nghymru. **(Tudalen 19)**

**Argymhelliad 10.** Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried sut gellid defnyddio Cronfeydd Strwythurol i gefnogi prosiectau trwy ysgogi diddordeb a buddsoddiad cymunedau rhyngwladol. **(Tudalen 19)**

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell ymhellach y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy dychmygus wrth sicrhau bod chwaraewyr llai yn y sector preifat a'r trydydd sector yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â chyflenwi prosiectau Cronfeydd Strwythurol. **(Tudalen 19)**

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, wrth ddiwygio'i chanllawiau ar gaffael, yn rhoi blaenoriaeth i werthuso'r broses gaffael a'i heffaith, yn enwedig ar sectorau anllywodraethol. Dylai'r gwerthusiad gynnwys nodi pryd a lle mae caffael yn fwyaf effeithiol – a lle nad yw'n effeithiol – nid yn unig o ran llywodraethu da a gwerth am arian, ond hefyd o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r defnyddiwr. Dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gyhoeddi modelau arfer gorau gyda chanlyniadau'r gwerthusiad, a dylai gyflwyno achos i Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw rheolau caffael y Comisiwn Ewropeaidd yn gweithio yn erbyn buddiannau Cymru. **(Tudalen 22)**

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried goblygiadau posibl cyllidebau sector cyhoeddus tynnach yn y dyfodol, yn enwedig o ran argaeledd arian cyfatebol y

sector cyhoeddus a'r posibilrwydd y bydd mwy o alw ar y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir. **(Tudalen 23)**

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n parhau i sicrhau bod amser gwirfoddolwyr yn gymwys i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol mewn da ar gyfer Cronfeydd Strwythurol, er mwyn caniatáu gwerth ychwanegol i'r trydydd sector wrth gyflenwi rhaglenni yn y dyfodol. **(Tudalen 23)**

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, yn monitro'n agos effaith y dirwasgiad ar gyflenwi rhaglenni ac ar nodau rhaglenni er mwyn llywio a, lle bo angen, ail-lunio'r ffocws ar gyfer ail hanner cyfnod y rhaglen. **(Tudalen 25)**

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid i ystyried sut gellir defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd orau i atgyfnerthu rhaglen y Llywodraeth ar gyfer adnewyddu economi Cymru yn y dyfodol. **(Tudalen 26)**

**Argymhelliad 17.** Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ystyried mabwysiadu system casglu data gyffredinol ar gyfer pawb sy'n noddi ac yn cyflenwi prosiectau, er mwyn olrhain deilliannau a buddiolwyr ac osgoi unrhyw ddyblygu neu gyfrif dwbl, a dylai annog gwell cyfathrebu rhwng prosiectau ar lefel leol lle maent yn targedu'r un grwpiau o bobl. **(Tudalen 28)**

**Argymhelliad 18.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n caffael adolygiad canol tymor o effaith y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, er mwyn nodi gwersi o raglenni 2007-13 hyd yma fel bod modd cynllunio'n effeithiol ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglenni a thu hwnt i 2013. Dylai'r adolygiad hefyd gynnwys rhywfaint o feddwl creadigol ynglŷn â sut gellir strwythuro rhaglenni'n fwy effeithiol yn y dyfodol. **(Tudalen 28)**

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru'n sicrhau bod rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn cefnogi ac yn hybu eu gweledigaeth ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol, a'u bod yn parhau i roi llais cryf i Gymru wrth i bolisïau datblygu rhanbarthol gael eu datblygu yn Ewrop yn y dyfodol. **(Tudalen 29)**

# Cefndir yr ymchwiliad

## Diben yr ymchwiliad

1. Diben yr ymchwiliad hwn oedd i'r Pwyllgor Menter a Dysgu archwilio gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-13 – hanner ffordd trwodd – gyda chanolbwynt penodol ar Raglenni Cydgyfeirio, Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol.

2. Roedd cylch gorchwyl ein hymchwiliad yn cynnwys cynnydd y cronfeydd hyd yma – gan gynnwys targedau a ph'un a'u cyflawnwyd ai peidio; modd Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddefnyddio'r cronfeydd wrth ymateb i'r dirwasgiad; sut mae'r ariannu wedi'i rannu rhwng prosiectau dan arweiniad y sectorau cyhoeddus, preifat a dielw; a chynaliadwyedd prosiectau ar ôl 2013.

3. Gwnaethom gynnal pedair sesiwn tystiolaeth lafar rhwng 25 Chwefror a 18 Mawrth 2010, gan gynnwys holi Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru,[1] ac academyddion sy'n gweithio yn y maes hwn, a gwnaethom siarad â phrosiectau a ariennir gan yr UE mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn swyddfeydd Plant y Cymoedd, Penygraig, Rhondda. Gwnaethom hefyd gymryd tystiolaeth lafar oddi wrth Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr[2] er mwyn dysgu o brofiad rhanbarth tebyg yn y DU o weithredu ei raglenni Cronfeydd Strwythurol. Hoffem ddiolch i bawb a ddarparodd dystiolaeth lafar i ni, a hefyd i'r rheini a gyflwynodd papurau ysgrifenedig.

4. Rydym yn hyderus y bydd ein casgliadau a'n hargymhellion yn arwain at gyflenwi'r rhaglenni'n well ar lawr gwlad am weddill y cyfnod rhaglennu. Roedd yn galonogol cael gwybod gan y Gyfarwyddiaeth

---

[1] Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw'r corff ymbarél ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru ac mae'n ei gynrychioli ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan. Ef yw'r noddwr prosiectau ar gyfer dwy o fentrau strategol ESF yn rhaglenni 2007-13 ym meysydd Cydgyfeirio a Chystadleurwydd, y Porth Ymgysylltu a phrosiectau'r Farchnad Lafur Drosiannol; ac ar gyfer prosiect Cronfa Fuddsoddi Gymunedol Cydgyfeirio ERDF.

[2] Mae Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr yn rheoli'r Rhaglen Gydgyfeirio ar gyfer Cernyw ac Ynysoedd Sili, a Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth ERDF De-orllewin Lloegr ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol

Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfle Cyfartal y Comisiwn Ewropeaidd:

> "We, in the Commission, are ready to listen to your wishes, to look at any modification request that you would like to present in the second part of the year, and our two commissioners and the Commission have agreed a fast-track procedure to adopt that within a short time span. That is how we see the current situation. We believe that the next six months will be crucial in order to assess whether there should be changes, what direction they should take, and whether they should last for the next three years, from 2011 to 2013."[3]

## Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol

5. Yn achos cyfnod 2007-13, mae Cymru'n gymwys ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd dan bob un o'r tri Amcan Polisi Cydlyniant:

- Amcan Cydgyfeirio (Rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd);
- Amcan Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol (Rhaglen Dwyrain Cymru);
- Amcan Cydweithredu Tiriogaethol, gan gynnwys rhaglen Drawsffiniol Iwerddon-Cymru.

6. Rheolir Cronfeydd Strwythurol, a'u monitro a'u harchwilio ar sail cyfrifoldeb rheoli ar y cyd rhwng yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd. Awdurdodau cenedlaethol sy'n penderfynu ar sut mae arian Cronfeydd Strwythurol yn cael ei wario, ond y Comisiwn[4] sy'n gyfrifol yn y pen draw am y modd o weithredu'r systemau cenedlaethol.

7. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dirprwyo'r gwaith o gyflenwi'r rhaglenni rhanbarthol yng Nghymru (dan Amcanion Cydgyfeirio a Chystadleurwydd) i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Mae'r rhaglenni'n canolbwyntio ar greu swyddi a thwf cynaliadwy, yn unol â Strategaeth Lisbon yr Undeb Ewropeaidd, a pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Amlinellir mwy o fanylion ynglŷn â'r strwythur a'r ariannu ar gyfer y rhaglenni

[3] Cofnod y Trafodion paragraff 113, 25 Chwefror 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth tudalen 1

yng Nghymru yn y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru.

8. Ar ôl ychydig yn fwy na dwy flynedd a hanner o weithredu'r rhaglenni, mae WEFO wedi cytuno ar gyfanswm buddsoddiad o fwy na £2.4 biliwn, gyda chyfraniad o gronfeydd yr UE o fwy na £1.2bn. Erbyn 6 Mai 2010, roedd cyfanswm o 164 o brosiectau wedi'u cymeradwyo. Yn ôl WEFO, roedd mwy na £735 miliwn (30 y cant) yn cael ei fuddsoddi mewn busnes; £1.1bn (44 y cant) mewn pobl; a thua £595m (25 y cant) ar gyfer adfywio cymunedol, yr amgylchedd a thrafnidiaeth.

## Materion yn ymwneud â rhaglenni presennol

### Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC)

9. Ar 18 Chwefror, dangosodd datganiad newyddion Eurostat ar yr amcangyfrifon diweddaraf ynglŷn â CMC rhanbarthol yr UE yn 2007 fod CMC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn 73.4 y cant o CMC yr UE ar gyfartaledd, a oedd yn is na'r 76.9 y cant yn 2006. Yn achos Dwyrain Cymru, roedd y ffigyrau hefyd yn dangos bod y CMC wedi gostwng o 112.8 y cant yn 2006 i 110.3 y cant yn 2007. Dywedodd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth wrthym:

> "The reduction in GDP is far less difficult for Wales than it is for Ireland and Latvia. Overall, the situation in terms of that specific aspect is less dramatic than in neighbouring member States or regions."[5]

10. Gellir cymharu hyn â Chernyw ac Ynysoedd Sili lle roedd CMC y pen yn 69.2 y cant o CMC yr UE ar gyfartaledd yn 2000. Erbyn 2007, roedd y ffigur yn 75.2 y cant (er iddo gyrraedd 77.1 y cant y flwyddyn gynt). Roedd yna gyfeiriad yn y dystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr at y newid i'r awyrgylch yn y rhanbarth, a dywedodd fod rhaglenni presennol y Cronfeydd Strwythurol yn canolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel a ddylai gryfhau'r economi[6] er ein bod yn gwerthfawrogi'r gwahaniaethau sylweddol rhwng economi Cymru ac economi De-orllewin Lloegr.

11. Pan wnaethom herio swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru â'r ffigyrau CMC, dywedwyd wrthym:

---

[5] Cofnod y Trafodion paragraff 11, 25 Chwefror 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr tudalen 1

> "These figures do not reflect any of the investment made under Convergence. These figures are for 2007; we only started to pay out money under Convergence in 2008, and we are confident that Convergence will make an important contribution. These programmes need to be seen in the broader macro-economic context."[7]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu ei hasesiad o ffigyrau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) 2008 yr Undeb Ewropeaidd i'n Pwyllgor pan fyddant wedi'u cyhoeddi.**

## Y broses ymgeisio

12. Nodwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol y Comisiwn Ewropeaidd bod y meini prawf dethol prosiectau y mae WEFO'n eu defnyddio wedi'u dosbarthu i ranbarthau eraill y DU gan fod y Comisiwn Ewropeaidd o'r farn eu bod yn enghraifft o arfer da.[8] Rydym yn canmol Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei gwaith yn hyn o beth.

13. Er hynny, nodwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y prosiect Pontydd i Waith[9] ei fod wedi cael y broses ymgeisio'n gryn her ac yn rhy gymhleth oherwydd anghysonderau rhwng y neges a'r canllawiau, er gwaethaf eu profiad blaenorol o ariannu dan raglen Amcan Un. Cymerodd y broses ymgeisio naw mis i'w chwblhau.[10] Roedd "cryn her" ac "oedi hir" hefyd yn eiriau a ddefnyddiwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddisgrifio'r broses ymgeisio.[11]

14. Nododd prosiect Adeiladu'r Dyfodol gyda'n Gilydd[12] fod y broses ymgeisio ac asesu wedi bod yn hir ac, ar adegau, yn anodd, gan gymryd 16 mis i'w chwblhau, ond bod y ddwy ochr wedi dysgu o'r profiad.[13] Clywsom hefyd oddi wrth Brifysgol Cymru fod rhai prosiectau wedi aros dwy flynedd ar ôl cyflwyno'u cais cyn derbyn

---

[7] Cofnod y Trafodion paragraff 68, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adran 1
[9] Prosiect cydweithredol yw Pontydd i Waith rhwng awdurdodau lleol ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen i helpu pobl i mewn i waith, dan arweiniad CBS Torfaen
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig Pontydd i Waith tudalen 1
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig CLlLC tudalen 2
[12] Mae Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd yn targedu pobl ifanc 11 i 19 oed sydd wedi ymddieithrio yn Rhondda Cynon Taf, dan arweiniad yr awdurdod lleol, gyda Choleg Morgannwg yn gyd-noddwr
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd tudalen 3

unrhyw arian.[14] Rydym felly'n croesawu ymrwymiad Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn ei lythyr at ein Cadeirydd, dyddiedig 7 Mehefin, i adolygu perfformiad y broses gymeradwyo ac edrych am gynhyrchiant pellach mwy effeithlon.

15. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn cefnogi defnyddio Ffurflenni Syniadau Prosiect yng nghyfnod cyntaf y broses ymgeisio, ond awgrymodd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> "Dylai WEFO fod wedi chwarae rôl fwy amlwg mewn arwain mudiadau i gydweithio ar brosiectau a oedd yn debygol o fynd ymlaen drwy'r system, a nodi'r syniadau nad oeddent yn ffitio'r blaenoriaethau nawdd yn gyflym."

16. Awgrymodd CGGC hefyd y gellid gwella'r broses ymgeisio os ydym am gwtogi ar ddyblygu ymdrech yn y trefniadau gwirio ar gyfer hawliadau prosiectau.[15] Roedd hyn yn bwynt a adleisiwyd gan Brifysgol Cymru, a gododd bryderon hefyd ynglŷn â diffyg dull strategol o weithredu'r broses asesu prosiectau, er bod y rhaglenni newydd bellach yn fwy strategol eu natur:

> "For example, no-one said, 'we need to develop innovation and more high-tech businesses, so which programmes are there?' or, 'we need to develop ICT, so which programmes are there?' There was no overall strategic viewpoint. It was left for the programmes to go through the process of being assessed and only when they got to that point, did they say, 'that is the sort of programme we want to back'. So, to be honest, it is very democratic in its approach, because anyone can put a programme in, but, is it strategic? I doubt it."[16]

17. Amlinellodd tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr y dull gwahanol o weithredu y mae Rhaglen Gydgyfeirio Cernyw ac Ynysoedd Sili yn ei ddilyn, lle mae partneriaid wedi cytuno ar ddull comisiynu wrth ddatblygu prosiectau – maent yn cytuno ar y math o weithgaredd a deilliannau y maent am eu gweld yn digwydd, ond nid yw'r modd o gyflenwi'r prosiect yn cael ei bennu.[17]

---

[14] Cofnod y Trafodion paragraff 63, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC tudalennau 1-2
[16] Cofnod y Trafodion paragraff 99, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr tudalen 1

**Rydym yn argymell y dylid cael cysylltiadau agosach rhwng swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a staff prosiectau ym mhob cyfnod o ddatblygu prosiect, ond yn enwedig yn ystod y cyfnodau cynnar, i sicrhau bod cyngor a chanllawiau cyson yn cael eu cyfleu a'u deall o'r dechrau.**

18. Clywsom hefyd oddi wrth brosiectau lleol eu bod o'r farn nad yw ariannu prosiectau am dair blynedd yn ddigon hir a bod angen o leiaf chwe mlynedd i alluogi sefydlu a datblygu rhai mathau o brosiectau.[18]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried dichonoldeb ariannu prosiectau priodol am chwe mlynedd pan geir unrhyw rowndiau ariannu'r UE yn y dyfodol, fel rhan o ddull cyfannol o annog prosiectau i ddod yn gynaliadwy yn y tymor hir.**

## Cynnydd hyd yma

19. Nodwyd yng nghyflwyniad ysgrifenedig Dirprwy Brif Weinidog Cymru i'n hymchwiliad:

> "Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi talu allan dros £183 miliwn o arian yr UE hyd yma.[19] Mae pob targed y Comisiwn ar gyfer gwariant rhaglenni (N+2) [20] wedi cael eu cyrraedd er gwaetha'r amgylchedd economaidd heriol ar hyn o bryd. Mae'r rhaglenni ar y trywydd cywir o ran cyflawni eu hamcanion a'u targedau.[21]

20. Nododd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth yn ei thystiolaeth ysgrifenedig ei bod yn:

> "Satisfied with the level of commitments and spend, since more than 60% of the ESF allocation has been committed to projects and the N+2 spend targets for 2009 were met."[22]

21. Er hynny, roeddem yn ymwybodol, pan roeddem yn holi'r tystion,[23] nad oedd unrhyw brosiectau wedi'u cymeradwyo dan Flaenoriaeth 4 Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), sef "Moderneiddio a Gwella Ansawdd ein Gwasanaethau Cyhoeddus –

---

[18] Cofnod y Trafodion paragraffau 54-60, 4 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[19] Mae hyn yn cynrychioli naw y cant o gyfanswm ariannu'r UE sydd ar gael dros gyfnod y rhaglen, sef ychydig yn fwy na £2 biliwn
[20] Mae'r targedau N+2 yn cyfeirio at y gofyniad bod yn rhaid i wariant sydd wedi'i ymrwymo i gefnogi gweithgareddau sy'n defnyddio Cronfeydd Strwythurol gael ei wario o fewn dwy flynedd ar ôl yr ymrwymo
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 10
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth tudalen 3
[23] Rydym ar ddeall bod un prosiect wedi'i gymeradwyo erbyn amser drafftio'r adroddiad hwn

Creu'r Cysylltiadau". Yn wir, mae rhaglen Gydgyfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ymhell ar ei hôl hi o'i chymharu â'r rhaglenni eraill.

22. Nododd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod Rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd ERDF wedi cyrraedd targedau dadneilltuo (N+2) 2009, ond ychwanegodd fod targed 2010 ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio'n gryn her. Roedd o'r farn, pe bai JESSICA[24] yn cael ei weithredu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gallai hynny gynorthwyo â chyrraedd y targed gwariant,[25] a dywedodd wrthym yn nes ymlaen ei bod yn hyderus y gallai WEFO ddatrys unrhyw anawsterau.[26]

23. Dygodd papur Dirprwy Brif Weinidog Cymru sylw at y ffaith y bydd prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma dan y rhaglenni ERDF yn arwain at greu 48,000 o swyddi gros yn ôl yr amcangyfrif. Mae'r prosiectau ERDF sydd wedi'u cefnogi hyd yma wedi creu 2,375 o swyddi gros cyfwerth ag amser llawn. Dywedodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru wrthym yn nes ymlaen fod y dirwasgiad wedi effeithio ar raglen Gydgyfeirio ERDF yn arbennig, gan fod cynifer o'r prosiectau'n golygu gwariant cyfalaf sy'n galw am symiau mawr o arian cyfatebol.[27]

**Rydym yn argymell, wrth i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gyflawni ei chyfrifoldebau monitro prosiectau, y dylai ystyried yn ofalus yr hinsawdd economaidd bresennol ac effaith hyn ar dargedau gwreiddiol prosiectau ac felly ar y deilliannau tymor hir ar gyfer economi Cymru.**

24. Yn olaf, clywsom dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad hwn mai'r rôl bwysig i'r Llywodraeth oedd darparu cyfeiriad cyffredinol yn hytrach na rheoli rhaglenni a phrosiectau unigol yn rhy fanwl.[28] Clywsom hefyd ei bod yn bwysig bod WEFO'n darparu cyngor ynglŷn â ph'un a yw prosiectau'n cydymffurfio â rheolau cymorth

---

[24] Cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddi Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adran 2
[26] Cofnod y Trafodion paragraff 20, 25 Chwefror 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[27] Cofnod y Trafodion paragraff 17, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[28] Cofnod y Trafodion paragraffau 66-73, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

gwladwriaethol ai peidio, yn hytrach na disgwyl i brosiectau sicrhau eu cyngor cyfreithiol eu hunain.[29]

**Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ystyried dichonoldeb darparu cyngor i brosiectau ynglŷn â chydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol, yn hytrach na disgwyl i brosiectau sicrhau eu cyngor cyfreithiol eu hunain.**

## Defnyddio Cronfeydd Strwythurol wrth ymateb i'r dirwasgiad

25. Cyfeiriodd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth yn ei thystiolaeth at y ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i ymateb i'r dirwasgiad trwy brosiectau a ariennir ar y cyd, megis ReAct a ProAct, sef dau brosiect â'r nod o liniaru effeithiau negyddol yr argyfwng i lawer o unigolion.[30] Dywedodd swyddogion y Comisiwn wrthym yn nes ymlaen eu bod o'r farn bod y ddau gynllun hyn yn cynrychioli arfer gorau yn Ewrop."[31] Eto, rydym yn canmol Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei chyflwyniadau yn hyn o beth.

26. Nododd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol yn ei thystiolaeth fod dwy Raglen Weithredol ERDF yn gwneud cynnydd cyson o ran ymrwymiadau, ond bod gwariant yn araf, yn bennaf oherwydd y dirwasgiad economaidd. Awgrymodd y gallai diffyg arian cyfatebol, os bydd yr amodau economaidd presennol yn parhau, rwystro cynnydd. Er hynny, dygodd sylw hefyd at y ffaith mai bwriad penodol llawer o'r prosiectau y mae rhaglenni ERDF yn eu hariannu yw mynd i'r afael ag effeithiau'r dirwasgiad.[32]

27. Nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Dirprwy Prif Weinidog Cymru bod y Cronfeydd Strwythurol yn chwarae rôl bwysig yn ymateb y Llywodraeth i'r dirywiad economaidd byd-eang yn ogystal â pharhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau a gwendidau strwythurol tymor hir.[33]

---

[29] Cofnod y Trafodion paragraffau 75-78, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth tudalen 3
[31] Cofnod y Trafodion paragraff 162, 25 Chwefror 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adrannau 2 a 9
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 34

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cadw golwg ar ei defnydd o Gronfeydd Strwythurol wrth ymateb i'r dirwasgiad.**

## Cyllid Cymru

28. Yn dilyn trafodaethau â Thrysorlys ei Mawrhydi, mae Gweinidogion Cymru'n ystyried ailstrwythuro Cyllid Cymru yn gorfforaethol. Mae'n bosibl y bydd un o'r prif newidiadau sy'n cael eu hystyried yn golygu na ddaw Cyllid Cymru dan gategori corfforaeth cyhoeddus mwyach o ran trefniadau cyfrifo'r Llywodraeth.[34] Roedd gennym ddiddordeb mewn darganfod a fyddai unrhyw oblygiadau yn sgil hyn o ran parhau i ddefnyddio arian ERDF a benthyciad Banc Buddsoddi Ewrop sy'n rhan o'r gronfa JEREMIE[35] y mae Cyllid Cymru'n ei gweithredu.

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n Pwyllgor ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ran ailddosbarthiad posibl Cyllid Cymru.**

## Sut mae'r ariannu wedi'i rannu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a dielw

29. Yn ôl WEFO, mae yna ddull mwy strategol o fynd ati i gyflenwi'r ariannu ar gyfer y rownd raglennu hon, gyda llai o brosiectau, ond prosiectau mwy strategol, yn cyflawni blaenoriaethau Rhaglenni Gweithredol WEFO. Dywedodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru wrthym yn nes ymlaen ei fod yn disgwyl y bydd 300 o brosiectau'n cael eu cymeradwyo dan y rownd bresennol o Gronfeydd Strwythurol, ond bod y ffigur yn agosach at 3,000 dan y rhaglen ariannu Amcan 1 flaenorol.[36]

30. Mae prosiectau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu harwain yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma[37] (46 y cant). Mae'r rhain wedi'u datblygu mewn partneriaeth ac maent yn cael eu cyflenwi trwy drefniadau caffael i raddau helaeth. Sefydliadau eraill sy'n arwain y gweddill, gan gynnwys

[34] Datganiad i'r wasg, Cyllid Cymru – buddsoddi er twf, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 9 Chwefror 2010
[35] Cymru oedd y rhanbarth cyntaf yn y DU, ac ymhlith y cyntaf yn Ewrop, i sefydlu cronfa JEREMIE, sy'n darparu cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer busnesau micro i ganolig
[36] Cofnod y Trafodion paragraff 13, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[37] Y sefyllfa ym mis Mawrth 2010

awdurdodau lleol (17 y cant), y trydydd sector (13 y cant), y sectorau addysg uwch ac addysg bellach (10 y cant) a'r sector preifat (llai nag 1 y cant). Mae pedwar Tîm Ewropeaidd Gofodol rhanbarthol[38] a Thîm Ewropeaidd Gofodol y trydydd sector wedi'u sefydlu i helpu i sicrhau bod cymaint o fanteisio â phosibl ar Gronfeydd Strwythurol yng Nghymru.[39]

31. Nododd y prosiect Pontydd i Waith nad oedd y prosiectau presennol, o'u cymharu â phrosiectau ESF blaenorol, yn ymwneud cymaint â sefydliadau llawr gwlad sy'n aml yn meddu ar yr allwedd i ymgysylltu â'r grwpiau mwyaf anodd i'w cyrraedd.[40]

32. Gwnaeth Plant y Cymoedd hefyd gymharu'r rownd ariannu hon ag Amcan 1 a chael nad oedd cystal.[41] Dan y rownd flaenorol, roedd y prosiect wedi gallu cyrchu mwy na £3m; dan y rhaglen Gydgyfeirio, mae wedi cyrchu cyfanswm o £125,000, ond dim ond oherwydd y gwaith y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi'i wneud. Nododd felly:

> "Instead of building on what had been achieved through Objective 1 this [has] been a wasted opportunity preventing us reaching the people in the most disadvantaged areas. The policy to only fund large 'strategic' bids from local authorities, Welsh Assembly Government departments and universities has restricted access by community organisations. Not being able to access any Convergence funding till three years into the programme has had a crippling effect on the local voluntary sector and vulnerable individuals in those disadvantaged communities."[42]

33. Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru na fu unrhyw dystiolaeth fesuradwy ar gael hyd yma i ddangos cyfradd lwyddo sefydliadau'r trydydd sector wrth ennill contractau a ariennir gan yr UE.[43]

34. Mewn modd tebyg, hawliodd ColegauCymru fod y pwyslais ar brosiectau strategol mwy wedi gweithio yn erbyn colegau'n cynnig fel

---

[38] Mae Timau Ewropeaidd Gofodol yn darparu cymorth, cyngor a chyfarwyddyd i noddwyr ac ymgeiswyr prosiectau posibl ledled Cymru
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraffau 21-23
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig Pontydd i Waith tudalen 3
[41] Cofnod y Trafodion paragraff 27, 4 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig Plant y Cymoedd tudalen 2
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC tudalen 3 a Chofnod y Trafodion paragraff 162, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

ymgeiswyr unigol, ond bod y model consortia wedi bod yn araf wrth ddatblygu a chyrchu ariannu i'r rheng flaen.[44]

**Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n dadansoddi'r contractau a ddyfernir ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr UE fesul sector, gan gynnwys gwybodaeth am darddiad y sefydliadau hynny – Cymru neu'r tu hwnt iddi – ac yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei gwefan.**

35. Awgrymodd Prifysgol Cymru fod angen ymgysylltu'n fwy o lawer â'r sector preifat ynglŷn ag elfennau'r cronfeydd Cydgyfeirio newydd sy'n ymwneud ag arloesi, a bod taer angen i'r rhaglen bresennol o ariannu Ewropeaidd ymgysylltu'n fwy o lawer â busnesau i wella'i pherfformiad o ran Ymchwil a Datblygu a'r potensial cyffredinol i arloesi yng Nghymru.[45] Pan wnaethom holi'r Brifysgol yn nes ymlaen ynglŷn â hyn, dywedwyd wrthym mai un o brif ddiffygion rhaglen Amcan 1 oedd diffyg cydweithio rhwng prosiectau, ac roedd hyn yn feirniadaeth o'r rownd gydgyfeirio bresennol hefyd. Dywedwyd mai diffyg cyfathrebu oedd y prif reswm ac, os felly, dylid dadansoddi'r cysylltiadau rhwng gwahanol brosiectau'n feirniadol, a rhwng y cymunedau prifysgol a diwydiant ehangach yng Nghymru. Dywedwyd wrthym hefyd y dylai prosiectau geisio ymgysylltu â chwaraewyr rhyngwladol, sydd â llawer iawn o arian i'w fuddsoddi.[46]

36. Gwnaethom dderbyn tystiolaeth oddi wrth Fenter Busnes Gorllewin Cymru[47] a oedd yn dadlau nad oedd y sector preifat yn cael ei gau allan o'r rhaglen Cronfeydd Strwythurol bresennol. Dywedodd prosiect Pontydd i Waith wrthym ei fod wedi amgyffred diffyg ymgysylltiad o du'r sector preifat oherwydd bod busnesau'n cael y broses o ymgeisio am ariannu Ewropeaidd yn brofiad poenus:

> "The public sector is used to it, but the private sector is very impatient with it. Our experience is that if the private sector is to become involved, we have to do the application for it."[48]

37. Mewn cyferbyniad â hyn, dywedodd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol wrthym:

---

[44] Tystiolaeth ysgrifenedig ColegauCymru tudalen 1
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Cymru tudalennau 9-10
[46] Cofnod y Trafodion paragraffau 16-19, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig Menter Busnes Gorllewin Cymru
[48] Cofnod y Trafodion paragraff 44, 4 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

> "Compared with the situation in the past, the private sector now has greater engagement with the programme."[49]

38. Dywedodd Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr wrthym mai ei dull o fynd ati i ymgysylltu â'r sector preifat oedd defnyddio:

> "Technical assistance to fund a post in the private sector that enables private sector organisations to engage with the programme. That post ensures that programme monitoring committee members from the private sector are properly aware of what is going on, and also that businesses are aware of the opportunities through the programme."[50]

39. Roedd o ddiddordeb mawr i ni hefyd glywed oddi wrth Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr ei bod, ar sail prosiect dichonoldeb dan Amcan 1, wedi gwneud cais dan y rhaglen Gydgyfeirio am brosiect i ddatblygu mynediad i fand eang yng Nghernyw, i fusnesau ei ddefnyddio yn bennaf. Cyngor Cernyw sy'n arwain y prosiect ond mae'n golygu partneriaeth â chwmnïau telathrebu, a bydd cyhoeddiad cyn bo hir ynglŷn â'r cynigydd a ffefrir ar gyfer y gwasanaeth.[51]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau bod y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol yn canolbwyntio mwy ar adeiladu galluedd ymchwil ac ar gydweithio rhwng y sector busnes a'r sector academaidd er mwyn creu cyfoeth a datblygu'r economi yng Nghymru.**

**Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried sut gellid defnyddio Cronfeydd Strwythurol i gefnogi prosiectau trwy ysgogi diddordeb a buddsoddiad cymunedau rhyngwladol.**

**Rydym yn argymell ymhellach y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy dychmygus wrth sicrhau bod chwaraewyr llai yn y sector preifat a'r trydydd sector yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â chyflenwi prosiectau Cronfeydd Strwythurol.**

---

[49] Cofnod y Trafodion paragraff 99, 25 Chwefror 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[50] Cofnod y Trafodion paragraff 109, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[51] Cofnod y Trafodion paragraffau 121-123, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Defnyddio trefniadau caffael wrth gyflenwi prosiectau

40. Yn ôl canllawiau WEFO, mae'r ffocws cynyddol ar ddefnyddio trefniadau caffael agored ar gyfer cyflenwi rhaglenni yn achos rhaglenni 2007-13 yn deillio o'r ffaith bod y dehongliad o reolau Cymorth Gwladwriaethol[52], ac agwedd y Comisiwn Ewropeaidd tuag atynt, wedi tynhau'n sylweddol ers cyfnodau cynharach y rhaglenni blaenorol (2000-06). Mae canllawiau WEFO'n awgrymu y gellir lliniaru pryderon ynglŷn â Chymorth Gwladwriaethol ar lefel y cyflenwr trwy sicrhau bod trefniadau caffael yn cael eu defnyddio wrth gyflenwi gweithgaredd economaidd o fewn prosiectau. Mae'r Comisiwn yn gyfreithiol rhwym i ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol a ddaw i'w sylw, ac os darganfyddir bod cymorth yn anghyfreithlon, fe fydd yn cael ei adfer oddi wrth yr ymgeisydd.

41. Barn y Comisiwn yw bod caffael agored yn dwyn buddion sylweddol i Gymru wrth feithrin cystadleuaeth am y cronfeydd ar sail teg a thryloyw, gan wella ansawdd y cyflenwi a sicrhau gwerth am arian.[53] Cadarnhawyd y farn hon gan swyddogion y Comisiwn wrth iddynt roi tystiolaeth lafar i ni.[54]

42. Nododd Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan[55] mai un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at beidio â gwario yn unol â'r proffil yw pan mae angen i noddwyr prosiect ddefnyddio trefniadau caffael ar gyfer rhai elfennau o'r prosiect ond nid oes digon o amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyn. Dangosodd papur ar gaffael a ddarparwyd ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr 2009 y Pwyllgor Monitro Rhaglenni fod WEFO wedi cymeradwyo 134 o brosiectau hyd at 16 Tachwedd 2009. O'r rhain, roedd 113 yn defnyddio trefniadau caffael ar gyfer cyflenwi gweithgaredd prosiect ond, yn ôl y diffiniad, dim ond 18 ohonynt oedd wedi cwblhau'r gweithgaredd caffael.

43. Soniodd tystion hefyd am oedi a achosir yn ystod y broses gaffael ar gyfer cyflenwi prosiect. Roedd Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd, er enghraifft, wedi ei chael yn anodd deall yn llawn y

---

[52] Term y Comisiwn Ewropeaidd yw cymorth gwladwriaethol am unrhyw gymorth cyhoeddus a roddir yn ddetholus i fenter a allai effeithio ar gystadleuaeth a masnachu rhyng-gymunedol

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adran 8

[54] Cofnod y Trafodion paragraffau 143-148, 25 Chwefror 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

[55] Mae Jeff Cuthbert AC, sy'n Aelod o'r Pwyllgor Menter a Dysgu, hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan, a datganodd hyn ar ddechrau pob sesiwn tystiolaeth lafar

canllawiau ar gaffael roedd WEFO wedi'u cyhoeddi,[56] ac er bod y sefyllfa wedi'i datrys bellach, nododd:

> "Despite the best efforts of WEFO officers, sometimes we were unable to get clear definitive guidance on queries which led to delays in the project's assessment."[57]

44. Cyfeiriodd ColegauCymru hefyd at rwystredigaeth y sector addysg bellach ynglŷn â diffyg eglurder canllawiau cynnar ar gaffael oddi wrth WEFO.[58]

45. Cyfeiriodd Pontydd i Waith hefyd at oedi wrth sicrhau asiantwyr cyflenwi trwy drefniadau caffael, er nad oedd o'r farn bod hyn yn golygu risg sylweddol wrth gyflawni'r proffil cyflenwi cyffredinol. Fodd bynnag, roedd o'r farn bod canllawiau WEFO ar gaffael wedi:

> "Impeded effective partnership working with third sector organisations within this project. This is particularly in evidence when considering smaller organisations that may be inexperienced in tendering for contracts."[59]

46. Rhestrodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru nifer o wersi a ddysgwyd ynglŷn â defnyddio trefniadau caffael wrth gyflenwi prosiect, gan gynnwys oedi; cost sylweddol sefydlu systemau caffael ac is-gontractio; a'r costau o ran amser staff sydd a wnelo â chynigion i gyflenwi prosiectau Cronfeydd Strwythurol.[60] Dyfynnodd CGGC brofiad un noddwr prosiect y trydydd sector y bu gofyn iddo neilltuo aelod o staff amser llawn i weithio ar y broses gaffael ar gyfer prosiect penodol am oddeutu tri mis. Roedd CGGC hefyd o'r farn:

> "Mae dull cyffredinol y gweithgareddau cyflenwi prosiectau caffael yn rhwystro'r cyd-destun a'r hanes cadarn o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru ac mae wedi gweithredu fel gwrth-anogaeth rhag bod mudiadau trydydd sector yn ymgysylltu â chyflenwi rhaglenni."[61]

47. Ar y llaw arall, roedd CGGC yn dadlau, "er mor fiwrocrataidd a beichus ydyw o ran amser", bod rôl tendro yn cynnig:

---

[56] Canllawiau ar Nawdd, Partneriaeth, Caffael a Grantiau, WEFO
[57] Tystiolaeth ysgrifenedig Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd tudalen 5
[58] Tystiolaeth ysgrifenedig ColegauCymru tudalen 3
[59] Tystiolaeth ysgrifenedig Pontydd i Waith tudalen 3
[60] Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC tudalennau 4-5
[61] Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC tudalen 3

> "Mantais bosib o alluogi mudiadau trydydd sector i ddatblygu perthnasoedd gweithio tymor hwy adeiladol gyda chyrff cyhoeddus, perthnasoedd y gallent gyflwyno cyfleoedd i gynnal neu 'brif ffrydio' ymyriadau y profwyd eu bod yn effeithiol ar ôl 2013."[62]

48. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod caffael wedi arwain at oedi sylweddol o hyd at 9 i 12 mis o gymeradwyo prosiect i weithredu prosiect.[63] Cytunodd Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr fod y broses gaffael yn gallu cymryd ychydig mwy o amser, ond dywedodd wrthym ei fod yn gweld tystiolaeth fod yr ansawdd yn well na'r hyn a welsom yn y gorffennol, o bosibl."[64]

49. Clywsom oddi wrth swyddogion WEFO eu bod wrthi'n gweithio gyda'r sector i wella'r canllawiau ar gaffael, er mwyn iddi fod yn eglur i noddwyr prosiectau pryd roedd angen caffael a phryd nad oedd ei angen.[65] Byddem ninnau hefyd yn croesawu eglurder yn hyn o beth.

**Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, wrth ddiwygio'i chanllawiau ar gaffael, yn rhoi blaenoriaeth i werthuso'r broses gaffael a'i heffaith, yn enwedig ar sectorau anllywodraethol. Dylai'r gwerthusiad gynnwys nodi pryd a lle mae caffael yn fwyaf effeithiol – a lle nad yw'n effeithiol – nid yn unig o ran llywodraethu da a gwerth am arian, ond hefyd o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r defnyddiwr. Dylai Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gyhoeddi modelau arfer gorau gyda chanlyniadau'r gwerthusiad, a dylai gyflwyno achos i Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw rheolau caffael y Comisiwn Ewropeaidd yn gweithio yn erbyn buddiannau Cymru.**

## Effaith bosibl cyllidebau sector cyhoeddus tynnach

50. Nododd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol fod y dirwasgiad economaidd wedi arwain at bwysau cynyddol ar gyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Nododd hefyd, os cwtogir mwy ar wariant y llywodraeth, gallai hyn rwystro gweithredu Rhaglenni Gweithredol.[66]

---

[62] Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC tudalen 3
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig CLlLC tudalen 4
[64] Cofnod y Trafodion paragraff 50, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[65] Cofnod y Trafodion paragraff 106, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[66] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adran 10

51. Roedd y prosiect Pontydd i Waith a’r prosiect Adeiladu’r Dyfodol Gyda’n Gilydd ill dau yn cefnogi’r farn y gallai cwtogi ar gyllidebau’r sector cyhoeddus yn y dyfodol effeithio ar gyflenwi prosiectau ac ar gyrraedd targedau cytunedig.[67] Dywedodd Pontydd i Waith wrthym:

> “It is very dependent on decisions about how much money DCELLS is putting into the FE sector, because that is where we get the match.”[68]

52. Mae Cronfa Arian Cyfatebol a Dargedir Llywodraeth Cynulliad Cymru’n parhau i ddarparu cronfa arian cyfatebol ganolog pan fetha popeth arall ar gyfer y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol. Lansiwyd hon yng nghanol 2008, a hyd yma mae wedi dyfarnu £43.9m i gefnogi 19 o brosiectau. Yn ôl gwefan WEFO[69], mae’r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod £350m ar gael ar gyfer y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir yn ystod y cyfnod rhaglennu 2007-13. Gwnaethom holi Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn nes ymlaen ynglŷn â hyn, a chadarnhaodd fod yna swm sylweddol o’r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir ar gael, ac na fyddai diffyg arian cyfatebol yn fater i achosi pryder.[70]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n ystyried goblygiadau posibl cyllidebau sector cyhoeddus tynnach yn y dyfodol, yn enwedig o ran argaeledd arian cyfatebol y sector cyhoeddus a’r posibilrwydd y bydd mwy o alw ar y Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir.**

53. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru’n canmol WEFO am sicrhau bod modd defnyddio amser gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol mewn da ar gyfer prosiectau Cronfeydd Strwythurol: Cymru yw’r unig ranbarth yn y DU lle caniateir hyn.[71]

**Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n parhau i sicrhau bod amser gwirfoddolwyr yn gymwys i’w ddefnyddio fel arian cyfatebol mewn da ar gyfer Cronfeydd Strwythurol, er mwyn caniatáu gwerth ychwanegol i’r trydydd sector wrth gyflenwi rhaglenni yn y dyfodol.**

---

[67] Tystiolaeth ysgrifenedig Pontydd i Waith tudalen 5; tystiolaeth ysgrifenedig Adeiladu’r Dyfodol Gyda’n Gilydd tudalen 5

[68] Cofnod y Trafodion paragraff 128, 4 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

[69] www.wefo.wales.gov.uk

[70] Cofnod y Trafodion paragraffau 36-40, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

[71] Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC tudalen 6

### *Effaith cyfraddau ymyrraeth cynyddol*

54. O ganlyniad i werth y bunt yn gostwng o'i chymharu â'r Ewro, ac felly'r pwysau ar arian cyfatebol, bu WEFO, yn 2009, yn trafod telerau cynyddu cyfraddau ymyrraeth rhaglenni â'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y ddwy Raglen Gydgyfeirio ERDF ac ESF. Cwtogwyd £267m ar ofynion arian cyfatebol.[72]

55. Roedd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol o'r farn:

> "The increased intervention rates should help programme delivery in the light of funding shortages for sectors affected by the economic downturn."[73]

56. Yn ôl prosiect Pontydd i Waith, nid oedd wedi gallu manteisio ar y cyfraddau ymyrraeth cynyddol gan nad oeddent yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol, ond byddai'r prosiect yn gofyn i WEFO newid y gyfradd pan fydd yn gwneud cais am estyniad i'r ariannu ar ôl 2011.[74]

57. Nododd Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod y Rhaglen Gydgyfeirio'n ceisio lliniaru effaith llai o gyllid o bosibl i'r sector cyhoeddus yn y dyfodol trwy:

> "Keeping intervention rates [for private-led projects] as low as possible thereby maximising match funding in 2009-10; encouraging private sector applications where eligible.[…].and looking for new sources of funding where objectives match programme aims."[75]

58. Clywsom oddi wrth Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr yn nes ymlaen ei bod wedi trafod telerau cyfraddau ymyrraeth uwch â'r Comisiwn Ewropeaidd (68 y cant yn achos ERDF ar lefel rhaglen, a chymaint â 90 y cant yn achos rhai prosiectau) gan fod bron i 75 y cant o'i rhaglen wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddiadau o fath Lisbon.[76]

---

[72] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 35
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adran 13
[74] Tystiolaeth ysgrifenedig Pontydd i Waith tudalen 5
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr tudalen 3
[76] Cofnod y Trafodion paragraff 134, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, trwy'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, yn monitro'n agos effaith y dirwasgiad ar gyflenwi rhaglenni ac ar nodau rhaglenni er mwyn llywio a, lle bo angen, ail-lunio'r ffocws ar gyfer ail hanner cyfnod y rhaglen.**

## Cynaliadwyedd prosiectau ar ôl 2013

59. Nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Dirprwy Brif Weinidog Cymru bod gan raglenni 2007-2013 bwyslais ar "symud o ddiwylliant grantiau i ddiwylliant buddsoddi," a fydd yn cael ei atgyfnerthu trwy raglen y Llywodraeth ar gyfer adnewyddu'r economi.[77]

60. Clywsom oddi wrth Brifysgol Cymru:

> "If you had £100 million and gave £100 million away in loans, then you would still have £80 million to re-circulate. If you give £100 million away in grants, you will not get that funding back. […].If you give a business a grant, there is no commitment in that. If you want to look at some of those programmes, you should just say 'no' to anything that is to be funded again. You should just turn around and say, 'We will not give any grants, but we will give loans, repayable loans and interest-free loans'. If you want to make this programme sustainable, those funds would then remain in Wales and help the Welsh economy post-2015."[78]

61. Nododd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth yn ei thystiolaeth ysgrifenedig fod cyfraniad etifeddol[79] yn un o feini prawf dethol prosiectau WEFO, sy'n canolbwyntio ar effaith gynaliadwy debygol prosiectau. Ond roedd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol o'r farn, yn achos cynaliadwyedd cyn prosiect:

> "Cannot be guaranteed post-2013 since it is influenced by changes in the programme environment (state of the economy, government policy, budget cuts, etc)."[80]

62. Rydym ar ddeall o bapur ysgrifenedig Dirprwy Brif Weinidog Cymru[81], a hefyd o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad

---

[77] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 38
[78] Cofnod y Trafodion paragraff 92, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[79] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth tudalen 2: diffinnir cyfraniad etifeddol fel y graddau y bydd y prosiect yn cyflenwi newid strwythurol a/neu effaith barhaol y tu hwnt i'r cyfnod ariannu
[80] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adran 6

Interim y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar Ddyfodol y Polisi Cydlyniant (Rhagfyr 2009), fod y Llywodraeth yn gosod ffocws cryf ar gynaliadwyedd buddsoddiadau yn y rhaglen bresennol, megis ymgorffori strategaethau ymadael ar lefel prosiect o'r dechrau, yn ogystal â datblygu strategaethau ymadael ar lefel adran a rhaglen. Clywsom hefyd oddi wrth Ddirprwy Brif Weinidog Cymru pa mor bwysig ydoedd i alinio rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE ag ariannu'r Llywodraeth ar gyfer agendâu eraill datblygu economaidd a datblygu sgiliau.[82] Roedd yn ymddangos i ni bod Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr yn symud yn gyflymach i'r cyfeiriad hwn trwy awgrymu ei bod yn ystyried symud:

> "To a position whereby.[…].the existing [economic] strategies are used as the basis for the programmes, rather than our having separate documents, but will still give assurance to the European Commission that we are also delivering its needs through the programme."[83]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i weithio gyda phartneriaid i ystyried sut gellir defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd orau i atgyfnerthu rhaglen y Llywodraeth ar gyfer adnewyddu economi Cymru yn y dyfodol.**

## Monitro a gwerthuso

63. Nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Dirprwy Brif Weinidog Cymru:

> "Mae synergedd a chydweithredu ar draws y rhaglenni wedi cael eu gwella drwy sefydlu Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan i oruchwylio gweithredu pedair rhaglen Cymru, gan symleiddio'r trefniadau blaenorol o dan Raglenni 2000-2006 lle roedd gan bob rhaglen ei Bwyllgor Monitro Rhaglen ei hun."[84]

64. Soniwyd hefyd ym mhapur Dirprwy Brif Weinidog Cymru bod newidiadau i reoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn golygu nad yw gwerthusiadau ar adegau penodedig, megis y Gwerthusiadau Canol Tymor, yn orfodol mwyach. Yn y dystiolaeth, rhestrwyd nifer o werthusiadau ac arolygon sydd ar y gweill ar hyn o bryd, a dywedwyd bod WEFO wedi penderfynu gwneud gwerthusiadau ar "y pwynt mwyaf

---

[81] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 38
[82] Cofnod y Trafodion paragraff 63, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[83] Cofnod y Trafodion paragraff 152, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[84] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 29

effeithiol wrth gyflenwi'r rhaglenni". [85] Nododd y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

> "WEFO has adequate internal resources to monitor and evaluate the performance of the programmes."[86]

Dywedodd ei swyddogion wrthym yn nes ymlaen fod modd WEFO o fonitro'r system yn gadarn.[87]

65. Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ei dystiolaeth ei fod yn pryderu ynglŷn â lefel yr adnoddau y mae prosiectau unigol yn eu buddsoddi mewn systemau TG a chronfeydd data i olrhain buddiolwyr prosiectau.[88]

66. Dywedodd prosiect Pontydd i Waith yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod modd WEFO o'i fonitro wedi bod yn annodweddiadol, gan fod y cyfarfod ôl-ofal cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 13 mis ar ôl dechrau'r prosiect ac oherwydd mai dyma oedd y prosiect cyntaf a gymeradwywyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn noddwr arweiniol.

67. Roedd y prosiect yn pryderu hefyd ynglŷn â chofnodi ac, o bosibl, cyfrif deilliannau'r prosiect ddwywaith neu fwy oherwydd diffyg eglurder ynglŷn â phwy oedd yn berchen ar ddeilliannau mewn prosiectau eraill a ariennir gan ESF.[89] Mynegodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bryder hefyd ynglŷn â'r synergedd rhwng rhai gweithgareddau cenedlaethol a lleol a oedd yn arwain at ddyblygu a thargedu'r un buddiolwyr.[90] Clywsom y pwyntiau hyn yn cael eu hailadrodd yn ein sesiynau â phrosiectau lleol, a gododd bryderon ynglŷn ag effeithiolrwydd ariannu, pwy oedd yn cael y clod am beth, a'r angen am well cyfathrebu rhwng prosiectau i sicrhau eu bod yn cyfannu ei gilydd yn hytrach na'n dyblygu eu hymdrechion.[91]

68. Pan holwyd WEFO ynglŷn â hyn, dywedwyd wrthym eu bod yn annog cydweithio rhwng prosiectau, er bod hyn ar lefel Cymru gyfan a lefel ranbarthol ar hyn o bryd, ac y bydd y gronfa ddata newydd o

---

[85] Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru paragraff 32
[86] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol adran 3
[87] Cofnod y Trafodion paragraff 103, 25 Chwefror 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig CGGC tudalen 2
[89] Tystiolaeth ysgrifenedig Pontydd i Waith tudalen 3
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig CLlLC tudalen 3
[91] Cofnod y Trafodion paragraffau 68-79, 4 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

fuddiolwyr yn gwneud cryn dipyn i ddileu cyfrif dwbl yn y dyfodol.[92] Fel y dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wrthym, fe ddylai fod yn haws i WEFO fapio pwy sy'n gwneud beth nawr bod yna lai o brosiectau, ond prosiectau mwy strategol.[93]

**Rydym yn argymell bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'n ystyried mabwysiadu system casglu data gyffredinol ar gyfer pawb sy'n noddi ac yn cyflenwi prosiectau, er mwyn olrhain deilliannau a buddiolwyr ac osgoi unrhyw ddyblygu neu gyfrif dwbl, a dylai annog gwell cyfathrebu rhwng prosiectau ar lefel leol lle maent yn targedu'r un grwpiau o bobl.**

69. Y tu hwnt i hynny, hoffem weld gwerthusiad mwy trwyadl o'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cyfan o ran cyfrannu at dargedau sydd wedi'u gosod a dangosyddion lles economaidd lefel uchel, gan gynnwys CMC. Rydym yn nodi bod Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr wedi awgrymu y gellid dyrannu un gronfa sengl o ariannu Ewropeaidd yn ystod cyfnodau ariannu yn y dyfodol, ac y gellid blaenoriaethu hon yn ôl strategaethau'r UE a strategaethau domestig, a'i gweinyddu fel cronfa sengl o fewn ardal ddaearyddol briodol.[94] Clywsom yn nes ymlaen oddi wrth Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr ei bod wedi caffael adolygiad canol tymor o'r rhaglen gan gwmni o ymgynghorwyr allanol.[95]

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n caffael adolygiad canol tymor o effaith y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, er mwyn nodi gwersi o raglenni 2007-13 hyd yma fel bod modd cynllunio'n effeithiol ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglenni a thu hwnt i 2013. Dylai'r adolygiad hefyd gynnwys rhywfaint o feddwl creadigol ynglŷn â sut gellir strwythuro rhaglenni'n fwy effeithiol yn y dyfodol.**

---

[92] Cofnod y Trafodion paragraffau 63 a 90, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[93] Cofnod y Trafodion paragraff 164, 11 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr tudalen 5
[95] Cofnod y Trafodion paragraff 147, 18 Mawrth 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Casgliadau

70. Rydym yn gwerthfawrogi, gan fod y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol yn wahanol i rowndiau blaenorol, y bu rhai trafferthion cychwynnol wrth weithredu'r system newydd. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ei bod yn anodd, hanner ffordd trwy'r cyfnod, nodi'n union pa effaith y mae'r Cronfeydd yn ei chael ar lawr gwlad.

71. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi dwyn sylw at gyflawniadau positif Llywodraeth Cynulliad Cymru a WEFO a'r clodydd y maent wedi'u derbyn oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd.[96] Fodd bynnag, mae yna faterion pwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw ynglŷn â'r rhaglenni presennol, fel yr angen i ymgysylltu â chwaraewyr llai o'r sector preifat a'r trydydd sector o fewn y dull mwy strategol o weithredu sydd wedi'i fabwysiadu yn y rownd ariannu bresennol; pwysigrwydd gwella'r cyfathrebu rhwng prosiectau ar lefel leol; yr angen i annog cynaliadwyedd tymor hir prosiectau; yr angen i fynd i'r afael â'r ffaith nad yw diwydiant yn manteisio, ar y lefel strategol, ar raglenni Cydgyfeirio; a'r mater o sut gall prosiectau addasu i amgylchiadau economaidd newidiol.

72. Wrth graffu ar fanylion ymrwymiadau a gwariant y Cronfeydd Strwythurol, ni ddylid anwybyddu etifeddiaeth y rhaglenni hyn. **Nod cyffredinol – a llwyddiant yn y pen draw – Ariannu Strwythurol Ewropeaidd fydd gwelliannau strwythurol cynaliadwy yn economi Cymru**, rhywbeth yn debyg i agenda Lisbon ar gyfer meysydd twf megis y diwydiannau digidol, creadigol a gwyrdd, heb sôn am welliannau yn yr agenda cynhwysiant cymdeithasol. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod angen i Weinidogion hefyd gydbwyso'r amcanion tymor hir hynny â sicrhau bod Cymru'n dod allan o'r dirywiad economaidd presennol – a chynllunio strategaeth ymadael ar gyfer diwedd y rownd ariannu hon ar ôl 2013.

**Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru'n sicrhau bod rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn cefnogi ac yn hybu eu gweledigaeth ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol, a'u bod yn parhau i roi llais cryf i Gymru wrth i bolisïau datblygu rhanbarthol gael eu datblygu yn Ewrop yn y dyfodol.**

[96] Gweler paragraffau 12, 20, 25 a 64

## Tystiolaeth lafar

Gwnaethom geisio ystod eang o farnau ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Derbyniodd y sefydliadau a ganlyn ein gwahoddiad i ddarparu tystiolaeth lafar ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth a'r cyflwyniadau ysgrifenedig trwy glicio ar y dolenni.

| | |
|---|---|
| *25 Chwefror 2010* | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=170135&ds=2/2010 |
| Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chyfle Cyfartal | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=167769&ds=2/2010 |
| Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=167786&ds=2/2010 |
| *4 Mawrth 2010* | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=172494&ds=3/2010 |
| Pontydd i Waith | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=169351&ds=3/2010 |
| Adeiladu'r Dyfodol Gyda'n Gilydd | http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=169516&ds=3/2010 |

| | |
|---|---|
| Plant y Cymoedd | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=170207&ds=3/2010 |
| *11 Mawrth 2010* | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=172392&ds=3/2010 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171363&ds=3/2010 |
| | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171370&ds=3/2010 |
| | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171401&ds=3/2010 |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=170622&ds=3/2010 |
| *18 Mawrth 2010* | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=174438&ds=4/2010 |

| | |
|---|---|
| Prifysgol Cymru | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171784&ds=4/2010 |
| Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol De-orllewin Lloegr | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171703&ds=4/2010 |

## Tystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

| *Enw* | *Dolen i'r dystiolaeth* |
|---|---|
| ColegauCymru | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171734&ds=4/2010 |
| Cyngor Gwynedd | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171916&ds=4/2010 |
| Cymdeithas Seryddol Abertawe | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=170654&ds=3/2010 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=171706&ds=4/2010 |
| Menter Busnes Gorllewin Cymru | http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=169349&ds=3/2010 |